# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 - Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 24 Ionawr 2012** |
| Amser: | **09:30 - 10:28** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_24_01_2012&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Bethan Jenkins**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | **Abigail Phillips (Clerc)**<br>**Sarita Marshall (Dirprwy Glerc)**<br>**Helen Roberts (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2. Deisebau newydd

### 2.1P-04-358 Ailgyflwyno Cymorth Cartref ar gyfer plant sydd ag anhwylderau ar y sbectrwm awtistig a'u teuluoedd ym Mwrdeistref Sirol Caerffili

Cytunodd y Pwyllgor i aros am ymateb y Gweinidog.

### 2.2P-04-360 Deiseb Man Gwan Pen-y-lan

Cytunodd y Pwyllgor i:
Anfon yr ohebiaeth gan BT at y deisebwyr;
Aros am ymateb y Gweinidog.

### 2.3P-04-361 Pas bws am ddim i fyfyrwyr o dan 25 oed sydd mewn addysg llawn amser

Cytunodd y Pwyllgor i:
Gomisiynu gwaith ymchwil ar gostau darparu teithio am ddim ar fysiau i fyfyrwyr o dan 25 oed sydd mewn addysg llawn amser, gan ystyried yr astudiaeth beilot a gynhaliwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr;
Clywed tystiolaeth lafar gan y deisebwyr, efallai mewn cynhadledd fideo;
Ceisio barn Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr ar bwnc y ddeiseb.

## 3. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1P-03-296 Cynigion annheg ar fenthyciadau i fyfyrwyr

Cytunodd y Pwyllgor i anfon llythyr y Gweinidog at y deisebwyr er mwyn cael eu sylwadau, gyda golwg ar gau'r ddeiseb os ydynt yn fodlon.

### 3.2P-04-349 Darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg - Caerffili

Cytunodd y Pwyllgor i anfon llythyr a chyhoeddiad y Gweinidog at y deisebwyr ac i geisio'u barn ynghylch sut y mae ei ddatganiad ysgrifenedig yn berthnasol i'w pryderon.

### 3.3P-03-262 Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute

Cytunodd y Pwyllgor i:
Anfon y ddeiseb a'r wybodaeth a gasglwyd hyd yma at y grŵp trawsbleidiol ar hawliau dynol, a gofyn am i'r broses o lunio cysyniad ar gyfer sefydlu corff o'r fath gael ei rhoi ar agendâu'r grŵp yn y dyfodol;
Anfon yr ymatebion i'r ymgynghoriad at y deisebwyr fel y gallant lunio cysyniad ar yr un pryd, ac awgrymu eu bod yn lobïo Aelodau unigol i gynnal dadl sy'n cael ei harwain gan Aelod ar y pwnc hwn yn y Cynulliad.

### 3.4P-04-341 Gwastraff a Llosgi

Cytunodd y Pwyllgor i:
Wahodd tystion, gan gynnwys y Gweinidog, i roi tystiolaeth lafar ar ynni o wastraff;
Hysbysu'r deisebwyr bod y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn cynnal ymchwiliad i bolisi ynni, a gofyn a hoffent awgrymu meysydd y gellid holi amdanynt yn yr ymchwiliad.

### 3.5P-04-344 Carthffos gyhoeddus yn Freshwater East
### 3.6

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y deisebwyr gan dynnu eu sylw at benderfyniad cyngor cymuned Llandyfái a gofyn am eu hymateb iddo, gyda golwg ar gau'r ddeiseb os ydynt yn fodlon.

### 3.7P-04-345 Cysylltiadau bws a rheilffordd rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin

O ystyried ymateb y Gweinidog a chynnwys yr ymatebion i'r ymgynghoriad, cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y deisebwyr i ofyn am fanylion am unrhyw broblemau a geir gyda'r cysylltiadau ffordd presennol;
Cynghori'r deisebwyr ynglŷn â'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol.

## 4. P-04-328 Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau: Cynigion i foderneiddio gwasanaethau gwylwyr y glannau

### 4.1Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau a ganlyn:

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r cyfarfod yn parhau'n gyhoeddus.
Cytunodd y Pwyllgor wedyn i:
Anfon y dystiolaeth a gasglwyd a manylion am bryderon at yr Is-ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth;
Ychwanegu ail argymhelliad at yr adroddiad, sef bod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn ailddechrau trafodaethau â Llywodraeth y DU ar fater cau gorsafoedd gwylwyr y glannau, yn enwedig yng ngoleuni'r digwyddiadau yn yr Eidal.
Anfon adroddiad y Pwyllgor at y Pwyllgor Materion Cymreig.

## 5. Trafodaeth ynghylch y dystiolaeth a gafwyd gan y Gweinidog - y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ionawr

Cytunodd y Pwyllgor i:
Ystyried ymhellach gyda'r Gweinidog y ddeiseb Cŵn Tywys y Deillion - Lle Sy'n Cael Ei Rannu, unwaith y bydd y Gweinidog o'r farn bod gan y Llywodraeth ddigon o dystiolaeth i arddel safbwynt;
Anfon manylion am drothwy nifer y damweiniau ffyrdd a fydd yn golygu bod mesurau diogelwch ar y ffyrdd a/neu fesurau i atal damweiniau ar y ffyrdd yn cael eu rhoi ar waith, ynghyd â datganiad y Gweinidog ar fesurau i atal damweiniau ar y ffyrdd, at ddeisebwyr y ddeiseb Diogelwch ar y Ffyrdd yn Llansbyddyd i gael eu sylwadau arnynt, ar ôl i'r pwyllgor gael y wybodaeth honno gan y Gweinidog;
Anfon trawsgrifiad o'r cyfarfod at y pedwar grŵp o ddeisebwyr a chyngor cymuned Llansbyddyd i gael eu sylwadau arnynt.
Anfon yr astudiaeth o'r sefyllfa cyn ac ar ôl gwneud newidiadau at ddeisebwyr y ddeiseb Atebion Lleol i Dagfeydd Traffig yn y Drenewydd ar ôl i'r pwyllgor ei chael gan y Gweinidog.

## 6. Papurau i'w nodi

### 6.1P-03-205 Cadwch Farchnad Da Byw y Fenni

## Trawsgrifiad
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.